

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	21 GORFFENNAF 2026
Pwnc:	CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2025/26 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU
Deilydd(ion) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO– CYLLID A BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr adroddiad:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Aelodau Lleol:	AMHERTHNASOL

A – Argymhelliad(Argymhellion) a rhesymau

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft am 2025/26 a'r Fantolen ddrafft hyd at 31 Mawrth 2026.

Cyflwynir gwybodaeth fanylach am falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor ac mae'r adroddiad yn manylu ar y defnydd y bwriedir ei wneud o'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2026/27 a'r blynyddoedd dilynol. Noda'r adroddiad lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefel sydd ei angen i ddiogelu unrhyw risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, bodloni unrhyw ymrwymadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnyddio'r cyllid, e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg y mae'r Cyngor yn ei hwynebu newid a bydd lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn cael ei hadolygu dros y misoedd nesaf.

Pwysig yw nodi nad yw'r ffigyrau wedi'u harchwilio a gallant newid yn sgil y broses archwilio. Wedi cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad o'r Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.

Argymhellion:-

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r datganiadau ariannol drafft sydd heb eu harchwilio am y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r Datganiad Cyfrifon Drafft llawn 2025/26 wedi'i gyhoeddi ar y ddolen a ganlyn:- [Datganiad o'r Cyfrifon Drafft 2025 i 2026](#)
2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, fel ar 31 Mawrth 2026, sef £19.037m.
3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y cronfeydd wrth gefn clustnodedig o £24.434m, ac yn cymeradwyo creu £0.510m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd.
4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'n ffurfiol drosglwyddo £0.716m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion o £4.327m.
6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfa'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) o £3.063m.
7. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo defnyddio £2.373m o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig at y dibenion a nodir yn Nhabl 9.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau o ran lefel y balansau cyffredinol sydd eu hangen i dalu costau a risgiau posibl yn y dyfodol. Yn sgil yr opsiwn, cafwyd y posibilrwydd o ryddhau balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido gwariant untro yn 2026/27 a / neu mewn blynyddoedd i ddod. Ystyriwyd nifer o feysydd gwariant gwahanol.

C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar gyllidebau referniw a chyfalaf blynyddol y Cyngor.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesiad o effeithiau posib (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel ynys?

Mae'r bwriad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â rhai risgiau a materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn helpu i ddiwallu anghenion tymor hir yr Ynys a'i thrigolion.

2. A yw hwn yn benderfyniad y disgwylir iddo atal costau/dibyniaethau yn y dyfodol ar y Cyngor? Os felly, sut?

Ydi. Bydd nodi cyllid i liniaru risgiau yn y dyfodol yn sicrhau y bydd risgiau'n cael eu rheoli'n well a gallent leihau costau yn y dyfodol.

3. A ydyn ni wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Amherthnasol

5. Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hynny cyn gwneud y penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn eu cael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud y penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith ar y Gymraeg.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm, Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r adroddiad wedi'i ystyried gan y Prif Weithredwr a'r TA cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae sylwadau aelodau'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2. Cyllid / Swyddog 151	Roedd y Swyddog Adran 151 a staff y Tîm Cyllid yn gyfrifol am ddrafftio'r cyfrifon a'r adroddiad hwn.
3. Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried ynghyd â'r holl sylwadau a wnaed gan aelodau'r TA.
4. Adnoddau Dynol	Nid yw'r materion a drafodir yn yr adroddiad yn cael effaith ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol.
5. Eiddo	Amherthnasol
6. Technoleg Gwybodaeth	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Trafodwyd yr alldro ariannol drafft a'r balansau cronfeydd wrth gefn yng nghyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid ar 9 Gorffennaf 2026. Ystyriwyd y datganiad cyfrifon drafft gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2026.
9. Aelodau Lleol	Amherthnasol

F – Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig
 Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2025/26
 Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026
 Atodiad 4 – Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn 2025/26
 Atodiad 5 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig, fel ar 31 Mawrth 2026

Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth)

Dim

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Yn yr adroddiad, nodir prif ddatganiadau ariannol drafft am y flwyddyn ariannol 2025/26 a chyflwynir crynodeb o falansau cyffredinol y Cyngor, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balansau ysgolion a chronfa wrth gefn y CRT.
- 1.2. Noda'r adroddiad, hefyd, farn Swyddog Adran 151 y Cyngor ar pa mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth gefn, a ydynt yn rhoi digon o wydnwch ariannol i'r Cyngor ac a ydynt yn rhoi digon o ddiogelwch ariannol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau ariannol yn y dyfodol y bydd y Cyngor yn eu hwynebu.

2. GWYBODAETH GEFNDIR

- 2.1. Mae Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol, erbyn 31 Mai yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon drafft ac ardystio ei fod yn ddarlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Yna, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol, sydd wedi'u harchwilio, erbyn 31 Gorffennaf yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- 2.2. Oherwydd nifer o resymau, yn cynnwys oedi wrth gwblhau archwiliadau ledled Cymru yn y blynyddoedd yn dilyn y pandemig ac oherwydd materion cyfrifyddu technegol, yr oedd angen canllawiau a mewnbwn archwilio ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru (LIC) ac Archwilio Cymru wedi cydnabod nad yw'r amserlen statudol yn gyraeddadwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Yr amserlen a awgrymir yw paratoi'r datganiad cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin 2026 a chyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Medi 2026. Ystyrir, hefyd, ddiwygio'r dyddiadau cau statudol am y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r hysbysiad statudol yn rhoi gwybod i'r holl bartïon â diddordeb na fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dyddiadau cau statudol a nodir ym mharagraff 2.1 uchod.

3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2025/26

- 3.1. Cyflwynir y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) drafft yn Atodiad 2.
- 3.2. Mae'r datganiad yn crynhoi cost darparu gwasanaethau yn 2025/26, yn unol â'r gofynion cyfrifyddu statudol, ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r CRT mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifyddu statudol, megis dibrisiant ac addasiadau pensiwn, nad ydynt yn cael eu codi yn erbyn y Dreth Gyngor ac, felly, maent yn cael eu gwrthdroi cyn pennu'r sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans y CRT a balansau ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r CIES yn uniongyrchol gymharol â'r adroddiadau alldro a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o agenda'r cyfarfod hwn.
- 3.3. Dengys y CIES mai £182.912m yw cost net gwasanaethau, gyda gwarged o £35.668m ar ddarparu gwasanaethau. Yna gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ar gyfer aillfesur y rhwymedigaeth pensiwn, i roi'r gwarged net terfynol am y flwyddyn, sef £29.296m. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i bennu'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a balansau. Ceir manylion yr addasiadau yn nodyn 6 y Datganiad Cyfrifon drafft.

Tabl 1
Cysoni CIES â'r Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau am 2025/26

	£'000	£'000
Cyfanswm y Gost (Gwarged) yn unol â'r CIES		(29,296)
Gwrthdroi'r cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas ag Ailbrisio Asedau ac Ailfesur y Gronfa Bensiwn	(6,372)	
Addasiad rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau	35,913	
		29,541
Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Defnyddiadwy		245

3.4. Mae'r symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor i'w gweld yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2026

	Balans Agoriadol 01/04/2025 £'000	Tan / (Gor)wariant Net 2025/26 £'000	Trosglwyddiadau Net (o) / i Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer Cyllid a Gymeradwywyd £'000	Balans Cau 31/03/2026 £'000
Cronfa Gyffredinol y Cyngor	18,160	2,620	(1,743)	19,037
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	20,759	-	3,676	24,435
Balansau Ysgolion	5,074	-	(746)	4,328
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	2,616	-	165	2,781
Cronfa wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	538	-	697	1,235
Cronfa wrth Gefn Uchelgais Gogledd Cymru	913	-	-	913
Cronfa wrth Gefn y CRT	7,977	(4,914)	-	3,063
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY	56,037	(2,294)	2,049	55,792

3.5. Mae cyfrifon y Cyngor, hefyd, yn cynnwys £913k mewn perthynas ag Uchelgais Gogledd Cymru. Y ffigwr hwn yw cyfran y Cyngor o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a gedwir gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

4. Y FANTOLEN DDRAFFT AR 31 MAWRTH 2026

4.1. Dangosir y fantolen ddrafft fel ar 31 Mawrth 2026, yn Atodiad 3.

4.2. Cynyddodd gwerth asedau'r Cyngor £29.296m, o £486.096m y llynedd i £515.392m ar 31 Mawrth 2026. Cynyddodd gwerth asedau tymor hir y Cyngor £32.941m, oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, offer a chyfarpar y Cyngor ac yn dilyn ailbrisio asedau presennol.

4.3. Gostyngodd rhwymedigaethau cyfredol £0.926m, i £56.817m, sy'n bennaf o ganlyniad i symudiadau yng ngwerth credydwyr tymor byr, a gynyddodd £6.569m, a grantiau tymor byr a dderbyniwyd ymlaen llaw, a ostyngodd £8.190m. Mae rhwymedigaethau tymor hir wedi gostwng o £135.223m i £133.818m.

4.4. Er bod y gwerthusiad actiwaraidd yn asesu gwerth y Gronfa Bensiwn fel gwarged o £155.642m, mae rheolau cyfrifyddu (IFRIC14) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor leihau gwerth yr ased pensiwn oherwydd na all y Cyngor gael mynediad at werth yr ased.

5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

5.1. Mae balans y Gronfa Gyffredinol (yn amodol ar archwiliad) ar 31 Mawrth 2026 yn £22.219m, sy'n cyfateb i 10.73% o gyllideb gwariant net 2025/26, ond dylid nodi y gallai'r ffigwr hwn newid yn dilyn yr archwiliad. Mae'r Cyngor wedi defnyddio £1.685m o'r gronfa wrth gefn hon yn gyllid ar gyfer cyllideb 2026/27 ac wedi dyrannu £0.100m i gynorthwyo gyda chostau staffio ychwanegol yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n lleihau'r gyllideb net sydd ar gael i £20.434m. Mae hyn yn cyfateb i 9.87% o gyllideb gwariant net 2026/27. Mae'r symudiad i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Symudiad mewn Balansau Cyffredinol yn ystod 2025/26

	£'m	£'m
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2025		18.161
Llai wedi'i Ddefnyddio i Gydbwysu Cyllideb Refeniw 2025/26		(2.459)
Balans ar gael ar 1 Ebrill 2026		15.702
Trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	0.716	
Gwarged Cyllideb Refeniw 2025/26	2.620	
		3.336
Balans ar 31 Mawrth 2026		19.038
Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2026/27		(1.685)
Costau Staffio y Gwasanaethau Cyfreithiol		(0.100)
Balans ar 1 Ebrill 2026		17.253

5.2. Cymeradwyodd y Cyngor yr hyn a argymhellwyd gan y Swyddog Adran 151, sef y dylai'r Cyngor gynnal balans isafswm o'r cronfa wrth gefn yma o 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net am y flwyddyn ariannol nesaf. Yn seiliedig ar yr argymhelliad hwn, dylai'r balans isafswm fod yn £10.35m, sy'n rhoi £6.90m o falansau i'r Cyngor uwchlaw'r ffigwr isafswm hwn.

5.3. Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, mae'n ymddangos bod y sefyllfa gyllido ar gyfer 2027/28 yn anodd, a rhagwelir diffyg mewn cyllid. Fodd bynnag, gallai'r newid yn LIC arwain at setliad cyllido amgen i Lywodraeth Leol yng Nghymru yn 2027/28. Mae'r ffaith bod balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn iach ac uwchlaw lefel isafsw y gronfa wrth gefn yn rhoi opsiynau i'r Cyngor gyllido gwariant ychwanegol yn 2026/27 (gweler paragraff 10 isod) a helpu i bontio unrhyw ddiffyg cyllidol yn 2027/28.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

- 6.1.** Mae Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn cael eu dal gan y Cyngor i liniaru risgiau posibl yn y dyfodol, diwallu cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb referniw flynyddol, a dal grantiau na chawsant eu defnyddio a chyfraniadau eraill. Mae dal cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn elfen hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor i sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o wydnwch ariannol i ddiwallu risgiau a heriau ariannol y dyfodol ac a fydd yn fodd i gael buddsoddiad ychwanegol mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2025/26 i'w gweld yn Nhabl 4, isod, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn yn ffurfiol, fydd yn gyfanswm o £0.510m:-

Tabl 4
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd ac a Grëwyd yn 2025/26

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Swm y Cyfrif wrth Gefn £	Rheswm dros Greu Cronfa wrth Gefn	Pwrpas y Gronfa wrth Gefn
Rheoleiddio - Morwrol	Ysgeintiaid Morwrol	50,000	Cyllido gwariant cyfalaf sydd ei angen yn 2026/27	Gwaith ysgeintiaid o gwmpas y pierau.
Eiddo	System Mynediad Drysau	75,000	Cyllido gwariant cyfalaf sydd ei angen yn 2026/27	Atgyweiriadau i'r system Mynediad Drysau i brif swyddfeydd y Cyngor ac uwchraddio'r feddalwedd gysylltiedig.
Eiddo	Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Mân-ddaliadau	200,000	Cymeradwywyd trosglwyddo tanwariant i gyllido gwariant cyfalaf yn 2026/27	Cyfraniad i gyllido ôl-groniad o atgyweiriadau i'r stâd y mân-ddaliadau.
Addysg	Cyllid Ôl-16	42,317	Dwyn ymlaen grant na ddefnyddiwyd i 2026/27	Cyllido gwariant pellach ar addysg ôl-16, fel y nodir yn y llythyr cynnig grant.
Gwasanaethau Plant	Cynllun Gwobr Dug Caeredin	4,537	Dal cyllid wedi'i gyfyngu at y pwrpas yma	Cyllido costau'r dyfodol yn ymwneud â'r cynllun yma.
Gwasanaethau Plant	Cronfa Eifeddiaeth Gymunedol Travis Perkins	9,425	Dal cyllid wedi'i gyfyngu at y pwrpas yma	Cyllido costau'r dyfodol yn ymwneud â'r cynllun yma.
Digidol, Moderneiddio a Thrawsnewid	Staff TGCh	121,885	Dwyn ymlaen cyllideb staffio heb ei gwario o 2025/26	Cyllido costau staffio ychwanegol yn 2026/27 cyn i'r costau gael eu cyllido'n barhaol yng nghyllideb 2027/28.
Gwasanaethau Plant	Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw - Cabanau	6,490	Trosglwyddo incwm i greu cronfa ar gyfer costau yn y dyfodol	Creu cronfa ar gyfer costau'n y dyfodol ar gyfer costau atgyweirio a chynnal a chadw cabanau darpariaeth meithrin a leolir yn amryw ysgol.
	Cyfanswm	509,654		

- 6.2.** Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a glustnodir ar 31 Mawrth 2026 wedi'u manylu'n llawn yn Atodiad 4, ond maent wedi'u crynhoi yn ôl pwrpas isod, yn Nhabl 5:-

Tabl 5
Crynodeb o'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig ar 31 Mawrth 2026

	Balans Agoriadol – 01/04/2025 £	Cyfraniadau i / (o) yn ystod 2025/26 £	Balans Cau – 31/03/2026 £
Risgiau Parhaus Corfforaethol a Gwasanaeth	7,092,100	1,111,627	8,203,727
Risgiau Penodol Corfforaethol a Gwasanaeth	1,609,476	(160,853)	1,448,623
Cyllid ar gyfer Gwariant Cyfalaf y Dyfodol	5,321,709	2,836,361	8,158,070
Gwelliannau prosesau busnes	374,327	(84,805)	289,522
Cyllid ar gyfer digwyddiadau annisgwyl nas defnyddiwyd ac a ddygwyd ymlaen i'r dyfodol	848,805	530,251	1,379,056
Cronfeydd wrth Gefn Dal Grant Cyfyngedig	2,181,098	(642,874)	1,538,224
Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	307,898	(185,646)	122,252
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig arall ar gyfer Prosiectau Penodol	3,023,645	270,552	3,294,197
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG	20,759,058	3,674,613	24,433,671

7. CRONFA WRTH GEFN GRANTIAU CYFALAF HEB EU DEFNYDDIO

- 7.1.** Mae cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio yn dal unrhyw falans heb ei wario o'r grant cyfalaf cyffredinol. Nid yw hon yn gronfa wrth gefn clustnodedig gan ei bod yn gronfa wrth gefn benodol i ddal cyllid cyfalaf, er y dylid nodi nad oes unrhyw amodau ar gyfer y grant, a'r Cyngor sydd i benderfynu pa brosiectau cyfalaf sy'n cael eu cyllido o'r grant. Nid yw wedi'i defnyddio gan nad oedd wedi'i defnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond bydd yn cael ei defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2027/28.

8. BALANSAU YSGOLION

- 8.1.** Mae lefel balansau Ysgolion wedi gostwng, o £5.074m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, i £4.327m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan chwe ysgol gynradd falansau â diffyg, o'i gymharu â phedair ar ddiwedd 2024/25. Mae pob un o'r ysgolion sydd â balans â diffyg wedi cytuno ar gynllun gwariant fydd yn dod â'r ysgol allan o ddiffyg dros gyfnod o amser. Crynhoir y balansau fesul sector yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2026

Sector	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Symudiad yn y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol	2,213,650	(699,527)	1,514,123
Ysgolion Uwchradd Cymunedol	2,264,916	(145,955)	2,118,961
Ysgolion Arbennig Cymunedol	229,403	36,517	265,920
Ysgol Gynradd Sefydledig	365,668	62,611	428,279
CYFANSWM	5,073,637	(746,354)	4,327,283

9. CYFRIF REFENIW TAI

- 9.1.** Gostyngodd balans cronfa wrth gefn y CRT, o £7.978m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £3.064m erbyn 31 Mawrth 2026. Mae'r manylion i'w gweld yn Nhabl 7 isod:-

Tabl 7
Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth 2026

	£'m	£'m
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2025		7.976
Gwarged y Cyfrif Refeniw 2025/26	8.023	
Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gronfeydd wrth Gefn	(12.935)	
Symudiad Net yn 2025/26		(4.912)
Balans Cau ar 31 March 2026		3.064

10. DYRANNU CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

10.1. Mae'r ffaith bod lefel y balansau cyffredinol yn uwch na'r gwerth isafswm a argymhellir yn rhoi cyfle i ryddhau cyllid i fynd i'r afael â phwysau cyllido brys a risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg ac y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Yn ogystal, ers 31 Mawrth 2026, mae dwy brif risg wedi lleihau a bydd hyn yn caniatáu i drosglwyddo cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol. Dyma'r risgiau sy'n newid:-

- **Tŷ Churchill** – Rhyddhawyd swm o £500k o'r balansau cyffredinol gan y Cyngor llawn i gwrdd â chostau posibl gwneud yr eiddo'n ddiogel. Mae'r gwaith wedi'i wneud gan berchennog yr eiddo ac mae bron wedi'i gwblhau. Er bydd y Cyngor yn wynebu rhai costau, sydd heb eu cwblhau eto, gellir dychwelyd £400k o'r £500k gwreiddiol i'r balansau cyffredinol.
- **Cronfa wrth Gefn Chwyddiant** - Cedwir cronfa wrth gefn i ddiwallu cost unrhyw gynnydd mewn chwyddiant, uwchlaw'r swm a ganiateir yn y gyllideb flynyddol. Y prif reswm dros hyn yw diogelu'r risg y bydd y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer 2026/27 yn uwch na'r chwyddiant a ddarparwyd ar ei gyfer yng nghyllideb 2026/27. Er nad yw dyfarniad cyflog y Cyngor Cenedlaethol wedi'i setlo eto, cynnig y cyflogwyr i'r Undebau yw 3.3%, sy'n unol â'r swm a ganiateir yn y gyllideb. Er y gallai'r cytundeb terfynol fod yn uwch, ni ragwelir y bydd yn sylweddol uwch na'r cynnig presennol. Yn ogystal, er gwaethaf y problemau parhaus yn y Dwyrain Canol, mae'n ymddangos bod pethau'n nes at gael eu datrys, sy'n lleihau pwysau chwyddiant yn 2026/27. Balans cyfredol y gronfa wrth gefn hon yw £2.345m, sy'n uwch nag sy'n ofynnol a gellir trosglwyddo £310k o'r gronfa wrth gefn hon yn ôl i falansau cyffredinol.

10.2. Bydd symud £710k o'r ddwy gronfa wrth gefn hyn yn cynyddu lefel y balansau cyffredinol, ar ôl rhyddhau cyllid i gydbwyso cyllideb refeniw 2026/27, i £18.784m. Ar ôl ystyried cynigion i ryddhau cyllid ychwanegol, argymhellir gellir rhyddhau £2.3731m o falansau cyffredinol. Mae modd gweld lefel ddiwygiedig y balansau ar 30 Mehefin 2026 yn Nhabl 8 isod:-

Tabl 8
Balansau Cyffredinol Diwygiedig ar 30 Mehefin 2026

	£'m	£'m
Balans ar 1 Ebrill 2026 – yn ôl Tabl 3		17.253
Trosglwyddo o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig		
Cronfa wrth Gefn Tŷ Churchill	0.400	
Cronfa wrth Gefn Chwyddiant	0.310	
		0.710
Cyllid ar gyfer Gwariant Ychwanegol, gweler Tabl 9 isod		(2.373)
Balans ar 30 Mehefin 2026		15.590

- 10.3.** Mae lefel y balansau cyffredinol o £15.590m sy'n weddill yn cyfateb i 7.54% o gyllideb refeniw net 2026/27, ac mae'n £0.112m yn is na'r sefyllfa ym mis Mehefin 2025. Mae'r lefel yma o falansau yn parhau i fod yn iach ac yn diogelu'n ddigonol unrhyw risgiau cyllido posibl yn y dyfodol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.
- 10.4.** Ar ôl ystyried y risgiau a'r problemau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd, cynigir y meysydd gwariant ychwanegol a ganlyn (gweler Tabl 9 isod). Nid yw'n hanfodol y ceir yr holl wariant yn 2026/27 a gellir dwyn ymlaen unrhyw gyllid nad yw wedi'i wario fel cronfa wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27.

Tabl 9
Meysydd Arfaethedig o Wariant Ychwanegol

Maes Gwariant	Refeniw / Cyfalaf	Swm a Ddyraniwyd £	Pwrpas
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Cyfalaf	200,000	Ymdrin ag ôl-groniad o geisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl
Depo Priffyrdd	Cyfalaf	155,000	Atgyweirio wal gynnal rhwng y Depo ac eiddo cyfagos
Ystafelloedd Newid Plas Arthur	Cyfalaf	100,000	Cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid Balchder mewn Lle er mwyn uwchraddio'r ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur.
Adeiladau'r Cyngor	Cyfalaf	600,000	Cyfrannu at gyllido ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw ar draws adeiladau'r Cyngor.
Mân-ddaliadau	Cyfalaf	200,000	Cyfrannu at gyllido ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw yn Stâd Mân-ddaliadau'r Cyngor.
Gwasanaethau Eiddo	Refeniw	120,000	Cynyddu capasiti y staff yn Nhîm Gwasanaethau Eiddo i gyflawni'r prosiectau a gyllidir drwy'r gyllideb gyfalaf a chyllid ychwanegol.
Gwasanaethau Cyfreithiol	Refeniw	191,000	Darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi a hyfforddi cyfreithwyr Cynllunio ac Eiddo sydd newydd eu penodi.
Addysg	Refeniw	100,000	Parhau i gyllido'r ysgol rithwir yn 2026/27.
Diwylliant	Refeniw	185,000	Cyllid cyfatebol ar gyfer cytundeb pedair blynedd rhwng y Cyngor a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu adnodd i weithio gyda sefydliadau lleol i ddenu mwy o gyllid grant ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau ym Môn.
Addysg	Refeniw	150,000	Cyllido gwaith cyflawni amcanion strategol LIC a'r Cyngor, cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol mewn llythrennedd a rhifedd ac ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg.
Addysg	Cyfalaf	200,000	Cyfrannu at gyllid cyfalaf technoleg ddigidol fodern mewn ysgolion.

Addysg	Refeniw	172,000	Cynnal cefnogaeth i brosiectau ADY, Cynhwysiant a Llesiant, yn enwedig i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio.
CYFANSWM		2,373,000	

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

2025/26			Gwasanaethau	2024/25		
Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C - B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -C		Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C- B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
70,959	4,874	75,833	Cyfarwyddwr Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	67,309	6,209	73,518
41,268	(400)	40,868	Gwasanaethau Oedolion	37,626	170	37,796
18,537	(359)	18,178	Gwasanaethau Plant	16,304	44	16,348
2,922	(117)	2,805	Tai	2,254	(44)	2,210
17,918	5,763	23,681	Priffydd, Eiddo a Gwastraff	16,058	5,943	22,001
6,199	602	6,801	Rheoleiddio a Economaidd	5,250	601	5,851
6,905	168	7,073	Trawsnewid	6,228	289	6,517
11,387	(303)	11,084	Adnoddau	11,150	(98)	11,052
2,468	(122)	2,346	Busnes y Cyngor	2,087	(36)	2,051
902	(380)	522	Costau Corfforaethol a Democrataidd	676	(595)	81
720	11	731	Rheolaeth Corfforaethol	751	(20)	731
-	160	160	Costau heb eu dosbarthu	-	242	242
16,526	(23,696)	(7,170)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	16,535	(23,254)	(6,719)
196,711	(13,799)	182,912	Cost Net Gwasanaethau	182,228	(10,549)	171,679
(196,466)	(22,114)	(218,580)	Incwm a Gwariant Arall	(188,427)	(24,374)	(212,801)
245	(35,913)	(35,668)	(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(6,199)	(34,923)	(41,122)
(56,037)	Yn cynnwys: Cronfa'r Cyngor CRT		Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill	(49,838)	Yn cynnwys: Cronfa'r Cyngor CRT	
245			Llai diffyg ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn	(6,199)		
(55,792)			Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth	(56,037)		
(52,729)				(48,060)		
(3,063)				(7,977)		
(55,792)				(56,037)		

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2026

	Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Eiddo, offer a chyfarpar	13	611,754	580,318
Asedau Treftadaeth	15	2,301	2,299
Eiddo Buddsoddi	16	10,201	10,068
Asedau Anniriaethol		109	175
Dyledwyr tymor hir	18	2,169	1,625
Asedau hawl defnydd tymor hir	43	2,749	1,857
Asedau tymor hir		629,283	596,342
Asedau a ddelir i'w gwerthu		813	833
Rhestrau stoc		313	421
Dyledwyr tymor byr	18	55,384	67,895
Buddsoddiadau tymor byr	35a	-	-
Arian a chywerthoedd arian	19	20,234	13,571
Asedau Cyfredol		76,744	82,720
Benthyca tymor byr	35b	(2,507)	(2,206)
Credydwyr tymor byr	20	(47,826)	(41,257)
Darpariaethau tymor byr	21	(1,124)	(749)
Derbyniadau grantiau ymlaen llaw	30	(4,914)	(13,104)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor byr	43	(446)	(427)
Rhwymedigaethau Cyfredol		(56,817)	(57,743)
Credydwyr tymor hir	20	(261)	(255)
Darpariaethau tymor hir	21	(1,498)	(1,567)
Benthyca tymor hir	35b	(121,049)	(121,726)
Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw	30	-	(1,349)
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	34	(9,107)	(9,259)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor hir	43	(1,903)	(1,067)
Rhwymedigaethau tymor hir		(133,818)	(135,223)
Asedau net		515,392	486,096
Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio	MIRS	55,792	56,037
Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio	9	459,600	430,059
Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn		515,392	486,096

DATGANIAD SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN (MIRS) 2025/26

	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 8) £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Balansau Ysgollion (Nodyn 7) £'000	Arian wrth Gefn Yr Brwdd Uchelgais £'000	Cyfanswm Cronfa y Cyngor wrth gefn y gellir ei defnyddio £'000	Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig CRT (Nodyn 8) £'000	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000
Balans ar 1 Ebrill 2024	15,605	16,517	2,390	464	5,577	587	41,140	8,189	509	8,698	49,838	391,735	441,573
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiad i'r balans agoriadol											-		-
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	18,360	-	-	-	-	-	18,360	22,762	-	22,762	41,122	-	41,122
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	3,401	3,401
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	18,360	-	-	-	-	-	18,360	22,762	-	22,762	41,122	3,401	44,523
Addasiadau rhwng y sail gyrrito a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(11,202)	-	226	(464)	-	-	(11,440)	(22,974)	(509)	(23,483)	(34,923)	34,923	-
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	7,158	-	226	(464)	-	-	6,920	(212)	(509)	(721)	6,199	38,324	44,523
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7)	(4,603)	4,242	-	538	(503)	326	-	-	-	-	-	-	-
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	2,555	4,242	226	74	(503)	326	6,920	(212)	(509)	(721)	6,199	38,324	44,523
Balans ar 31 Mawrth 2025	18,160	20,759	2,616	538	5,074	913	48,060	7,977	-	7,977	56,037	430,059	486,096
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiadau i'r balans agoriadol													
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	16,886	-	-	-	-	-	16,886	18,782	-	18,782	35,668	-	35,668
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(6,372)	(6,372)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	16,886	-	-	-	-	-	16,886	18,782	-	18,782	35,668	(6,372)	29,296
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(12,270)		165	(112)	-	-	(12,217)	(23,696)	-	(23,696)	(35,913)	35,913	-
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	4,616	-	165	(112)	-	-	4,669	(4,914)	-	(4,914)	(245)	29,541	29,296
Trosglwyddiadau net i/(o)													
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	(3,739)	3,676	-	809	(746)	-	-	-	-	-	-	-	-
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	877	3,676	165	697	(746)	-	4,669	(4,914)	-	(4,914)	(245)	29,541	29,296
Balans ar 31 Mawrth 2026	19,037	24,435	2,781	1,235	4,328	913	52,729	3,063	-	3,063	55,792	459,600	515,392

CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2025

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Corfforaethol	Cronfa wrth Gefn Yswiriant	Cyllido colledion heb yswiriant a gormodedd polisi.	1,250,000	-	-	1,250,000
Gwastraff	Cwlfert Safle Penhesgyn	Cyllido unrhyw gostau atgyweirio yn y dyfodol ar gyfer y cwlfert sy'n rhedeg o dan hen safle Gwaredu Gwastraff Penhesgyn.	2,463,630	-	-	2,463,630
Dysgu	Cynllun Salwch - Cynradd	Talu cost yswiriant salwch staff mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol yn talu premiwm blynyddol ac yn cael ei digolledu o'r gronfa hon i gwrdd â chostau ychwanegol a achosir yn sgil salwch staff.	0	-	(10,688)	(10,688)
Tai	Digartrefedd	Cyllido unrhyw alw ychwanegol uwchlaw'r swm a ganiateir yn y gyllideb flynyddol.	405,228	-	(111,302)	293,926
Prifffyrdd	Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf	Talu unrhyw gostau ychwanegol uwchlaw'r swm a ganiateir yn y gyllideb sy'n deillio o waith graeanu ychwanegol neu ymdrin â llifogydd a difrod stormydd.	94,480	-	-	94,480
Gwasanaethau Cymdeithasol	Contractau Staffio Gofal Cymdeithasol	Cyllido costau staffio / asiantaeth ychwanegol os yw galw ychwanegol am wasanaethau yn ei gwneud yn ofynol cael mwy o staff.	46,176	-	(46,176)	0
Dysgu	Cronfa wrth Gefn Cau Ysgolion	Cyllido cost cynnal ysgolion caeedig, neu gyfrannu at gostau sefydlu ysgolion newydd.	189,955	-	-	189,955
Corfforaethol	Cronfa wrth Gefn Chwyddiant	Cyllido pwysau chwyddiant ychwanegol na chaniateir ar eu cyfer yn y gyllideb refeniw – dyfarniadau cyflog yn fwyaf nodedig.	992,631	1,372,886	(20,000)	2,345,517
Dysgu	Galw am Wasanaethau Addysg	Cyllido costau ychwanegol uwchlaw'r swm a ganiateir yn y gyllideb flynyddol o ganlyniad i alw cynyddol neu bwysau chwyddiant.	500,000	315,363	-	815,363
Corfforaethol	Gostyngiadau mewn Grant	Darparu cyllid yn y tymor byr ar gyfer gwasanaethau sy'n profi gostyngiadau mewn cyllid grant. Mae'r cyllid yn caniatáu i'r Gwasanaeth wneud y newidiadau tymor hir angenrheidiol yn y ddarpariaeth gwasanaeth.	250,000	-	(250,000)	0
Corfforaethol	Cronfa wrth Gefn Risg Ad-dalu Premiwm y Dreth Gyngor	Cyllido cost unrhyw ad-daliadau'r Dreth Gyngor i drethdalwyr sydd wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn penderfyniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i drosglwyddo'u heiddo o Drethi Annomestig i'r Dreth Gyngor.	900,000	-	(138,456)	761,544
CYFANSWM RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PARHAUS			7,092,100	1,688,249	(576,622)	8,203,727

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Dysgu	Rhesymoli Ysgolion	Cwrdd â chostau ychwanegol sy'n deillio o'r rhaglen moderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo.	547,692	-	(224,064)	323,628
Cynllunio	Cynllun Datblygu Lleol	Cyllido'r costau ychwanegol uwchlaw'r swm a ganiateir yn y gyllideb refeniw flynyddol wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu nesaf.	472,179	-	(123,286)	348,893
Cynllunio	Apeliadau Cynllunio	Cyllido unrhyw gostau a geir wrth ymdrin ag apeliadau cynllunio ac unrhyw fath arall o heriau cyfreithiol i benderfyniadau cynllunio.	35,000	-	(35,000)	0
Eiddo	Cyflogau Cyfalafog	Cwrdd â chost unrhyw ddiffyg yn y dyfodol rhwng y costau cyflog a geir a'r swm a ailgodir i'r gyllideb gyfalaf.	82,613	-	(82,613)	0
Gwarchod y Cyhoedd	Tŷ Churchill	Byddir yn defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i gyllido gwaith strwythurol y mae ei angen i ostwng y risg i ddiogelwch y cyhoedd	471,992	-	-	471,992
Gwasanaethau Cymdeithasol	Costau Staff Prosiect Mosaig	Cyllido gwaith rheoli prosiect a chostau staffio i weithredu'r system yn 2026/27.	0	304,110	-	304,110
CYFANSWM RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PENODOL			1,609,476	304,110	(464,963)	1,448,623
Corfforaethol	Cyfraniadau Refeniw Heb eu Cymhwyso i Gyfalaf	Cyllid sydd wedi'i ddyrannu o gronfeydd refeniw yn gyfraniad tuag at brosiectau cyfalaf penodol yn y dyfodol. Caiff cyllid ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn yn ôl yr angen wrth i brosiectau symud ymlaen.	1,248,673	948,459	(1,093,363)	1,103,769
Corfforaethol	Cyfraniadau Cronfa Gyffredinol Heb eu Cymhwyso i Gyfalaf	Cyllid sydd wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gyfraniad tuag at brosiectau cyfalaf penodol yn y dyfodol. Caiff cyllid ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn yn ôl yr angen wrth i brosiectau symud ymlaen.	252,294	-	-	252,294
Prifffyrdd	Gwastraff / Ailgylchu	Cyllido prosiectau rheoli gwastraff yn y dyfodol.	986,847	2,385,790	(219,544)	3,153,093
Dysgu	Addysg - Symiau Cymudo	Cyfraniadau gan Ddatblygwyr, yn rhan o'r broses gynllunio, sy'n cyfrannu at gostau addysg ychwanegol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn sgil y datblygiad.	191,843	78,109	-	269,952
Tai	Symiau Cymudo Datblygwyr Tai	Cyllid a drosglwyddir i'r Cyngor gan Ddatblygwyr yn lle tai fforddiadwy mewn datblygiadau.	652,172	198,344	(264,376)	586,140
Prifffyrdd	Cytundebau Adran 106 Mannau Agored	Cyfraniadau gan ddatblygwyr yn rhan o gytundebau cynllunio.	59,431	49,772	-	109,203
Gwarchod y Cyhoedd	Labordy Calibradu	Cyfraniadau gan awdurdodau partner tuag at gost gyfalaf datblygu labordy calibradu.	13,530	-	-	13,530

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Dysgu	Cronfa ar gyfer costau'r dyfodol TG Ysgolion	Cwrdd â chostau cael offer TG newydd mewn ysgolion yn y dyfodol.	611,000	216,589	-	827,589
Prifffyrdd	Cyfraniad Datblygwyr - Prifffyrdd	Cyfraniadau gan Ddatblygwyr, yn rhan o'r broses gynllunio, sy'n cyfrannu at gostau gwella prifffyrdd y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn sgil y datblygiad.	113,765	-	-	113,765
Hamdden	Hawliad TAW Hamdden	Ad-daliad TAW oherwydd newid yn statws TAW ffioedd mynediad canolfannau hamdden. I'w ddefnyddio i wella canolfannau hamdden.	762,154	212,000	(3,500)	970,654
Gwasanaethau Cymdeithasol	Offer Teleofal	Cyllido costau cyflwyno offer digidol newydd.	60,000	60,000	-	120,000
Hamdden	Cronfa ar gyfer costau'r dyfodol Cae 3G Newydd	Cyllido costau cael caeau 3G newydd yn y dyfodol.	230,000	60,000	-	290,000
Hamdden	Offer Campfa yng Nghaergybi	Cyfrannu at gost cael offer yng nghampfa Canolfan Hamdden Caergybi.	140,000	-	(116,920)	23,080
Cyrchfan	Ysgeintiaid Morwrol	Cyllido cost ysgeintiaid o gwmpas Pier Biwmares.	0	50,000	-	50,000
Eiddo	System Rheoli Mynediad Drysau	Cyllido cost offer mynediad drysau a meddalwedd gysylltiedig newydd yn Swyddfeydd y Cyngor.	0	75,000	-	75,000
Eiddo	Atgyweirio a Chynnal a Chadw Môn-ddaliadau	Cyfrannu at gyllido ôl-groniad o waith atgyweirio a chynnal a chadw ar draws y stâd Môn-ddaliadau.	0	200,000	-	200,000
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWARIANT CYFALAF Y DYFODOL			5,321,709	4,534,063	(1,697,703)	8,158,069
Corfforaethol	Cronfa Trawsnewid	Talu cost datblygu a gweithredu cynlluniau i foderneiddio a thrawsnewid y ddarpariaeth gwasanaethau.	374,327	-	(84,805)	289,522
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWELLA PROSESAU BUSNES			374,327	-	(84,805)	289,522
Tai	Tai Fforddiadwy	Balans premiymau'r Dreth Gyngor na ddefnyddiwyd ac a ddyanwyd i gyllido grantiau a benthyciadau i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf.	702,133	670,251	(153,873)	1,218,511
Corfforaethol	Prosiectau Cyfyngedig a chyllidir gan	Rhan o'r gyllideb refeniw a ddyanwyd ac na ddefnyddiwyd, ar gyfer cyfieithu dogfennau moderneiddio ysgolion.	146,672	50,000	(36,127)	

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
	cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl					160,545
CYFANSWM Y CYLLIDEBAU AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL NA DDEFNYDDIWDYD SY'N OFYNNOL AR GYFER Y DYFODOL			848,805	720,251	(190,000)	1,379,056
Tai	Gweinyddiaeth Cefnogi Pobl	Cyllid grant na ddefnyddiwyd i'w ddefnyddio i gyllido costau staffio nad ydynt wedi'u cynnwys gan y Grant Cymorth Tai blyneddol.	438,674	21,304	(67,755)	392,223
Addysg	Diogelwch Covid mewn Ysgolion	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	9,056	-	(9,056)	0
Addysg	Strategaeth (ADY) Anghenion Dysgu Ychwanegol	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	15,363	-	(15,363)	0
Addysg	Grant Cerddoriaeth	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	12,958	-	(9,148)	3,810
Prifffyrdd	Rhwydwaith Bysiau Teithwyr	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	171,288	-	(28,380)	142,908
Dysgu	ACL Ôl-16	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	81,591	-	(50,929)	30,662
Cynllunio	Tirweddau a Lleoedd Cynaliadwy Cefn Gwlad	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	68,080	-	(54,552)	13,528
Cynllunio	Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	46,425	-	-	46,425

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
	(SLSP) Cefn Gwlad					
Hamdden	Cyfeiriad am Ymarfer Corff	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	6,448	-	(6,448)	0
Gwarchod y Cyhoedd	Arfau Ymosodol	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	39,883	10,404	-	50,287
Addysg	Grant Pryderon Ysgol	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	72,904	-	(72,904)	-
Addysg	Cyllid Ôl-16	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	0	42,317	-	42,317
Prifffyrdd	Isadeiledd Safleoedd Bysiau	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	48,657	-	-	48,657
Tai	Taliadau Dewisol Cost Byw	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	21,511	-	(21,511)	0
Tai	Cartrefi ar gyfer pobl o Wcráin	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	434,475	-	(307,953)	126,522
Dysgu	TRAC	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	138,232	-	(138,232)	0
Tai	ECO4	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	61,071	-	(61,071)	0
Gwasanaethau Cymdeithadol	Maethu Cymru	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	35,111	17,748	-	52,859
Tai	Ailsefydlu Pobl o Affganistan	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	427,371	116,223	-	543,594
Plant	Gwasanaeth Ieuenctid	Cyllid grant na ddefnyddiwyd.	52,000	-	(7,568)	44,432
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG A GYLLIDIR TRWY GRANT			2,181,098	207,996	(850,870)	1,538,224
Gwastraff	Incwm y Broses Ailgylchu	Amod y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (SWMG) bod incwm dros ben a gynhyrchir o weithgareddau ailgylchu yn cael ei ailfuddsoddi mewn rheoli gwastraff.	224,278	-	(186,304)	37,974

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Diwylliant	Cronfa Prynu ar gyfer Amgueddfeydd	Rhoddion i'w defnyddio i ychwanegu at y casgliad yn Oriel Ynys Môn.	22,752	6,805	(20,210)	9,347
Prifffyrdd	Ffioedd Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy	Ffioedd a delir gan ddatblygwyr i gael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB). Yn cyllido costau staffio i ymdrin â cheisiadau.	41,239	19,730	-	60,969
Gwarchod y Cyhoedd	Ffioedd Claddu ac Amlosgi Plant	Cyllido'r costau a geir gan Gyngorau Tref a Chymuned.	19,629	-	(19,629)	0
Gwasanaethau Cymdeithadol	Cronfa Waddol Gymunedol TP	Cyllid a roddwyd gan gcontractwr y Cyngor.	0	9,425	-	9,425
Gwasanaethau Cymdeithadol	Gwobr Dug Caeredin	Cyllid sy'n caniatáu i blant gymryd rhan yng nghynllun gwobrau Dug Caeredin.	0	4,537	-	4,537
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG ERAILL			307,898	40,497	(226,143)	122,252
Cynllunio	Cynllunio Datblygiadau Mawr	Cyllido cost ymdrin â cheisiadau cynllunio datblygu mawr a gwaith cysylltiedig.	491,867	8,728	(2,004)	498,591
Datblygiad Economaidd	Gwaith Archeolegol yn yr Wylfa	Cyllid a roddwyd gan Horizon i gwblhau gwaith archeolegol yn yr Wylfa.	368,421	-	(79,099)	289,322
Gwarchod y Cyhoedd	Model Rhagfynegi Dŵr Ymdrochi	Talu am gost cynnal a chadw offer monitro.	5,154	-	(5,154)	0
Cynllunio	Gallu a Chapasiti Cynllunio	Rhaid ailfuddsoddi yn y gwasanaeth Cynllunio ganran o ffioedd cynllunio a ddaw yn sgil cynnydd.	173,347	72,568	(97,520)	148,395
Adnoddau Dynol	Cynllun Hyfforddeion	Balans y gyllideb heb ei gwario o flynyddoedd blaenorol i gyllido ymrwymadau yn y dyfodol sy'n fwy na'r gyllideb flynyddol.	408,189	515,574	(300,000)	623,763

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Gwasanaethau Cymdeithadol	Ffi Weinyddol Cyllideb Gyfunol	Y posibilrwydd y bydd yn rhaid talu ffi weinyddol i'r awdurdod arweiniol i weithredu'r gyllideb Gofal Cymdeithasol Cyfun.	10,000	-	(3,000)	7,000
Gwasanaethau Cymdeithadol	Cynllun Cynorthwyr Addysgu Gwasanaethau Plant	Cyllido cynorthwyr addysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant ag anghenion gofal cymdeithasol.	41,803	-	(34,010)	7,793
Datblygiad Economaidd	Ad-daliad Menter ar y Cyd Stâd Ddiwydiannol Penrhos	Incwm rhent ychwanegol yn cael ei gadw i gyllido'r taliad sy'n ddyledus i LIC pan ddaw'r fenter ar y cyd i ben.	49,707	23,097	-	72,804
Gwarchod y Cyhoedd	Awdurdod Iechyd y Porthladd	Cyllido costau sefydlu Awdurdod Iechyd y Porthladd.	189,978	-	(189,978)	0
Technoleg Gwybodaeth	Cydgrynhoi Band Eang Ysgolion TGCh y Sector Cyhoeddus (PSBA)	Gwneud gwelliannau i fand eang TGCh mewn ysgolion.	297,816	89,560	(45,560)	341,816
Gwasanaethau Cymdeithadol	Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant y Brifysgol Agored	Cyllido cost rhaglen hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.	42,522	46,176	(40,260)	48,438
Corfforaethol	Eisteddfod yr Urdd	Cyllido cost presenoldeb y Cyngor yn Eisteddfod yr Urdd yn 2026. Mae swm o £50,000 y flwyddyn wedi'i ddyrannu yn y blynyddoedd ariannol 2023/24, 2024/25 a 2025/26.	100,000	-	-	100,000
Corfforaethol	Ad-dalu Benthyciad Salix	Cyllido taliadau MRP terfynol heb eu cyllidebu ar fenthyciadau Salix sydd wedi'u gohirio.	216,190	-	-	216,190
Cynllunio	Gweithredu Erthygl 4	Cyllido cost gweithredu Erthygl 4, pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen ag Erthygl 4.	251,987	-	(55,642)	196,345

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa wrth Gefn	Disgrifiad	Balans ar 1 Ebrill 2025 £	Trosglwydd- iadau i Mewn £	Trosglwydd- iadau Allan £	Balans ar 31 Mawrth 2026 £
Adnoddau	Caffael	Cyllido cost barhaus y gefnogaeth allanol i roi'r cynllun gwaith ar waith yn sgil adolygiad o drefniadau caffael y Cyngor.	45,000	-	(27,344)	17,656
Gwarchod y Cyhoedd	Gweithwyr Asiantaeth – Safonau Bwyd	I'w ddefnyddio i gyllido gweithwyr asiantaeth er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-gronid gwaith yn y gwasanaeth.	47,000	-	(23,599)	23,401
Gwarchod y Cyhoedd	Lles Anifeiliaid	Cyllido costau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag Achos Lles Anifeiliaid.	20,894	-	(1,731)	19,163
Datblygiad Economaidd	Llog Y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Dderbyniwyd - Datblygu Economaidd	I'w ddefnyddio i gyllido prosiectau Datblygu Economaidd yn y dyfodol.	185,167	369,978	-	555,145
Gwasanaethau Cymdeithadol	Meddalwedd Cysylltu Gofal	Cyllido costau meddalwedd untro yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r prosiect cysylltu gofal.	78,603	-	(78,603)	0
Moderneiddio Digialeiddio a Pherfformiad	Costau Staffio Pennaeth Gwasanaeth	Cyllido'r costau staff sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn 2026/27, cyn i'r swydd gael ei hymgorffori yn y gyllideb graidd yn 2027/28.	0	121,885	-	121,885
Eiddo	Cabanau Ysgol – Cronfa ar gyfer costau'n y dyfodol Atgyweirio a Chynnal a Chadw	Cyllido costau gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cabanau ysgol yn y dyfodol wrth iddynt godi.	0	6,490	-	6,490
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR GYFER PROSIECTAU PENODOL			3,023,645	1,254,056	(983,504)	3,294,197
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG			20,759,058	8,749,222	(5,074,610)	24,433,670



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Datganiad o'r Cyfrifon Drafft 2025/26



Cynnwys

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
	Adroddiad Naratif	1
	Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	9
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
	Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	11
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	12
	Y Fantolen	13
	Datganiad Llif Arian	14
	Nodiadau i'r Cyfrifon	15
Nodyn 1	Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	15
Nodyn 2	Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma	16
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	17
Nodyn 4	Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol ac amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd	18
Nodyn 5	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	18
Nodyn 6	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau	19
Nodyn 7	Cronfeydd Clustnodedig Wrth Gefn	20
Nodyn 8	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	22
Nodyn 9	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	22
Nodyn 10	Gwariant Gweithredol Arall	25
Nodyn 11	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	25
Nodyn 12	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	25
Nodyn 13	Asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar	26
Nodyn 14	Ymrwymïadau Cyfalaf Sylweddol	29
Nodyn 15	Asedau Treftadaeth	29
Nodyn 16	Eiddo Buddsoddiad	30
Nodyn 17	Gwariant a Cyllido Cyfalaf	31
Nodyn 18	Dyledwyr	32
Nodyn 19	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	33
Nodyn 20	Credydwyr	33
Nodyn 21	Darpariaethau	33
Nodyn 22	Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol	34
Nodyn 23	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	34
Nodyn 24	Llif Arian o Weithgareddau Cyllido	34
Nodyn 25a	Dadansoddiad o Natur Gwariant ac Incwm	35

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
Nodyn 25b	Incwm Cylchrannol	35
Nodyn 26	Lwfansau Aelodau	36
Nodyn 27	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	37
Nodyn 28	Pecynnau Ymadael	39
Nodyn 29	Ffioedd Archwilio Allanol	39
Nodyn 30	Incwm Grantiau	40
Nodyn 31	Partïon Cysylltiedig	42
Nodyn 32	Cronfeydd Ymddiriedol	45
Nodyn 33	Cynllun Pensiwn Athrawon	46
Nodyn 34	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol	47
Nodyn 35	Offerynnau Ariannol	53
Nodyn 36	Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol	58
Nodyn 37	Cyd-bwyllgorau a Chyllidebau Cyfun	62
Nodyn 38	Trefniadau Asiantaeth	64
